**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pob Corff Llywodraethu yng Nghymru,
CLlLC,
CCAC,
Comisiynydd Plant

30 Awst 2022

Annwyl Gyrff Llywodraethu,

Rydym yn gwybod y gall gwisg ysgol ac eitemau tebyg eraill fod yn faich ariannol, yn enwedig ar gyfer teuluoedd incwm isel a theuluoedd mawr.

Mae'r argyfwng costau byw wedi golygu bod teuluoedd yn profi toriadau i'w cyllidebau cartref. Er bod llawer o deuluoedd incwm is yn gymwys ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion - Mynediad, y cynllun mwyaf hael yn y DU, gwyddom fod miloedd o deuluoedd yn parhau i gael amser anodd yn ariannol. Bydd y sefyllfa hon ond yn dwysáu gyda chynnydd pellach i brisiau ynni ym mis Hydref.

Yn 2019, diweddarodd Llywodraeth Cymru ei chanllaw gwisg ysgol, a'i wneud yn statudol, er mwyn sicrhau bod cost eitemau i'r ysgol yn cael eu cadw mor isel â phosibl i deuluoedd. Rwy'n croesawu'r ffaith bod llawer o ysgolion wedi cymryd camau gweithredu ers i'r canllaw gael ei gyhoeddi ac rwy'n diolch iddynt. Fodd bynnag, rydym hefyd yn gwybod bod rhai achosion o hyd ble y mae disgwyl i deuluoedd wario symiau torcalonnus o arian er mwyn anfon eu plant i'r ysgol yn unig. Gobeithio eich bod yn cytuno nad yw hynny'n dderbyniol.

Rydym yn gwybod bod logos ysgolion, er enghraifft, yn parhau i fod yn faich i lawer o deuluoedd. Rwyf felly wedi gofyn i fy swyddogion ystyried opsiynau mewn perthynas â logos ar wisg ysgol. Bydd yr opsiynau'n ystyried a ddylai ysgolion gael logo o gwbl, neu gynnig logos yn rhad ac am ddim y gellir eu smwddio'n sownd i'r dillad. Byddai hyn yn rhoi'r opsiwn i deuluoedd brynu gwisg yn rhatach gan fanwerthwr o'u dewis. Byddaf hefyd yn ystyried a ddylai ysgolion allu dangos bod unrhyw elw o gytundeb ariannol sydd ganddynt â darparwyr gwisg ysgol yn cael ei drosglwyddo i'r cwsmer a'i fod yn codi pris rhesymol debyg i fanwerthwyr y stryd fawr.

Rwy'n gwybod bod ysgolion eisoes wedi cytuno ar wisg ysgol ar gyfer y flwyddyn academaidd hon a bod llawer o deuluoedd wedi prynu'r eitemau hyn yn barod. Fodd bynnag, yn y cyfnod pontio hwn byddwn i'n gofyn i ysgolion fod yn drugarog wrth ystyried yr angen am wisgoedd wedi'u brandio ac ystyried sut y gellir gwneud eu polisïau gwisg ysgol yn fwy hwylus i deuluoedd yn y cyfamser.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy’n bwriadu diweddaru ein canllaw gwisg ysgol statudol a byddaf yn ymgymryd ag ymgynghoriad llawn ar y newidiadau arfaethedig.

Os byddwch chi fel arweinwyr yng nghymunedau ein hysgolion yn arfer yr egwyddorion hyn ym mywyd bob dydd ysgolion, rwy’n hyderus y gallwn sicrhau bod mwy o gyfleoedd a phrofiadau dysgu cyfartal ar gael i’n dysgwyr. Bydd y rhain yn eu hysbrydoli a’u hannog i ffynnu yn yr ysgol, gan sicrhau urddas yn lle stigma.

Hoffwn hefyd gymryd y cyfle hwn i ddiolch i’r holl weithlu addysg am eu gwaith caled a’u hymroddiad parhaus.

Yn gywir,

**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language